

# Dim gobaith caneri ac idiomau eraill...

'Dim gobaith caneri' a 'gwyn y gwêl y frân ei chyw' - dau ddywediad Cymraeg sydd wedi swyno dau ddysgwr o Ferthyr Tudful.

Mae Michael Gustavius Payne yn arlunydd ac mae Mike Jenkins yn fardd, ac mae'r ddau wedi dod at ei gilydd i greu arddangosfa unigryw o gerddi a lluniau.

Y thema a fydd yn eu huno yw rhai o'r idiomau Cymraeg sydd wedi'u hysbrydoli wrth iddyn nhw fynd ati i ddysgu'r iaith.

"Daeth yn amlwg iawn wrth glywed y Gymraeg mwy a mwy," meddai Michael Gustavius Payne,


sy'n cael gwersi Cymraeg yng Nghanolfan Soar, Merthyr, "bod nifer fawr o ddywediadau lliwgar a deniadol yn yr iaith. Roedd hynny wedi dechrau ysbrydoli fy nghelf i wedyn."

A sgwrs anffurfiol dros beint ddaeth ag e a'r bardd Mike Jenkins at ei gilydd i gydweithio.

"Mae noson meic agored yn yr Imperial Hotel pob mis, noson o farddoniaeth i bawb," meddai'r cyn-athro yn ysgol Gyfun Pen y Dre ar stad y Gurnos, sydd nawr yn sgrifennu'n llawn amser, "ac ar ôl un o'r nosweithiau hynny fe ddechreuodd y ddau ohonom ni drafod yr idiomau oedd wedi cydio yn y ddau ohonom ni. A dyna fe mewn gwirionedd, roedd cynllun newydd wedi ei eni!"

Mae'r ddau wedi gwneud rhestr o idiomau a fydd yn sail i'r rhyddiaith a'r gelf yn arddangosfa 'Dim Gobaith Caneri'. Dydyn nhw ddim yn gweithio gyda'i gilydd a dyw un ddim yn gweld gwaith y llall wrth greu darn unigol. O ganlyniad mae un idiom yn gallu creu dau ymateb cwbl wahanol.

"Mae hynny wedi bod yn rhan gyffrous o greu'r gwaith," meddai Gus Payne, Swyddog Datblygu'r Celfyddydau i Gyngor Bwrdeistref Merthyr wrth ei waith bob dydd. "Yr unig beth sy'n gwbl gyffredin mewn gwirionedd yw'r idiom wreiddiol ac mae'n ddfyr iawn i'r ddau ohonom ni weld siwd mae'r llall wedi dehongli'r un dywediad."



## Dim Gobaith Caneri

Mae dehongliad y ddau o'r dywediad, Dim Gobaith Caneri, yn dangos gwahaniaeth rhwng y ddau artist.

"Mae fy mhaentiad i yn dangos y caets caneri traddodiadol fel man cychwyn ond yn mynd â'r llun i gyfeiriad gwahanol hefyd," meddai Gus Payne.

"Delwedd hollol wahanol sydd gen i," ychwanega Mike Jenkins. "Mae gen i ganeri yn y darn, ond mae'r delweddau yn ymwneud â'r byd bancio."

"Dw i am wreud sylw ynglŷn â'r hyn mae bancio wedi gwneud i'n cymdeithas ac wedi defnyddio'r caneri fel symbol."

*'I am the No Hope Canary, singing in the deepest gallery. Below vaults of borrowed money.'*

## Ffos y Frân

Mae'r ddau yn cydnabod eu bod yn dod o'r un tuedd gwleidyddol gyda'r un farn ar bynciau cymdeithasol eu hardal. Mae hynny'n thema yn eu gwaith gyda'r ddau yn defnyddio anifeiliaid, fel y caneri, er nad yr un anifail bob tro.

"Fel arfer," eglura Gus Payne, "mae mwncïod yn rhan amlwg o fy ngwaith i, tra bod Mike yn ffafrio adar yn fwy. Ond mae'r un ddelwedd yn ymddangos mewn ambell ddarn o waith."

"Mae gan y ddau ohonom waith wedi ysbrydoli gan Ffos y Frân, sef y gwaith glo brig anferth ger Dowlais. Yn naturiol ddigon mae brân gyda'r ddau ohonom yn y gwaith yno er bod y defnydd o'r un aderyn yn hollol wahanol."



'... The crow lingered too long: was mistaken for an outcrop of coal, was scooped up by a digger, was piled onto the back of a lorry, was taken to be washed and weighed, was hauled away to be burned for power's sake. Yet he rose, like a limb of the exhumed hillside come to life. Above the vast site, he made a sign no language could interpret.'

## Dysgu mwy am y Gymraeg

Cafodd Gus Payne ei eni ym Merthyr ac er bod Mike Jenkins yn enedigol o Aberystwyth, bu'n byw yn Lloegr am dipyn cyn symud i Ferthyr dros 30 mlynedd yn ôl. Mae wedi bod yn dysgu siarad Cymraeg ers blwyddyn ac ar fin ail-gydio yn ei wersi yn Hirwaun.

"Roedd yr awydd i wybod mwy am yr iaith ac arbrofi mwy gyda'r hyn roedd ein hiaith newydd yn ei gynnig i ni yn rhywbeth newydd i fi fel bardd ac i Gus fel arlunydd. Mae wedi bod yn gyffrous iawn i arbrofi fel hyn," meddai Mike Jenkins.

"Mae'n rhywbeth gwahanol yn sicr. Dw i wedi gallu creu paentiadau newydd ar thema ganolog ac mae Mike wedi gallu creu barddoniaeth newydd hefyd. A'r hyn sy'n wych yw bydd rhoi'r ddau waith gyda'i gilydd yn creu rhywbeth ychwanegol eto, trydydd gwaith os hoffwch chi."

Mae'r ddau yn dal i weithio ar gasgliad 'Dim Gobaith Caneri', ac mae disgwyl iddo fynd ar daith i Ferthyr, Penarth, Machynlleth ac Abergwaun yn 2011.

■ Alun Gibbard

Mike Jenkins a Gus Payne uwchben Ffos y Frân



Dim gobaith caneri

Ffos y Frân